



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Gwasanaethau Anabledd

Eglurhad o'ch Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (CCDP)



Beth yw CCDP?

Ystyr CCDP yw 'Cynllun Cefnogi Dysgu Personol'. Crëir y Cynlluniau hyn gan y Gwasanaeth Anabledd ar gyfer myfyrwyr unigol. Bydd eich CCDP yn amlinellu'r effeithiau a gaiff eich anabledd ar eich astudiaeth, yn ogystal â'r trefniadau a argymhellir sydd eu hangen er mwyn sicrhau y gallwch ddilyn eich cwrs a manteisio ar gyfleusterau'r Brifysgol.

Pam y mae angen CCDP arnaf?

Bydd CCDP yn sicrhau eich bod chi a'ch Ysgol yn glir ynglŷn â'r ddarpariaeth sydd ei hangen. Mae cyfrifoldebau'r Gwasanaeth Anabledd, eich Ysgol Academaidd a'ch cyfrifoldebau chi wedi'u nodi yn y CCDP.

Pwy sy'n gweld fy CCDP?

Mater i chi yw hynny. Y drefn arferol yw y byddwn ni'n llunio CCDP yn FyMangor unwaith y byddwch wedi rhoi'r dystiolaeth ddogfennol briodol i ni. Dylech allu gweld eich CCDP a chytuno ar ei gynnwys ar: <https://apps.bangor.ac.uk/plsp/student/> Bydd y wybodaeth sydd ei hangen ar eich Tiwtor Personol a Threfnydd y Modiwlau/Darlithwyr i gefnogi eich dysgu ar gael iddynt ei gweld (e.e. efallai eich bod angen deunydd darlithoedd cyn y ddarlith). Mae hyn yn golygu y gall staff wneud addasiadau rhesymol yn gynt ac yn haws. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <https://www.bangor.ac.uk/student-services/disability/index.php.cy>

Cofiwch, MAE gennych yr hawl i **gyfrinachedd llwyr** ac i gyfyngu ar bwy sy'n gweld eich CCDP - wedi'r cwbl, eich Cynllun chi yw hwn. Fodd bynnag, mae angen i chi sylweddoli y gallai hyn effeithio ar rai trefniadau a wneir. Os oes gennych bryderon ynglŷn â'r modd y dosberthir eich CCDP, trafodwch y mater ymhellach â'ch Cyngorwr Anabledd, eich Cyngorwr Iechyd Meddwl neu'ch Cyngorwr Anawsterau Dysgu Penodol.

Eglurhad ar rai 'Addasiadau Rhesymol' ...

- **Mynediad at ddarpariaeth y Llyfrgell: Benthyciadau estynedig o'r llyfrgell**



C Mae fy CCDP yn argymhell fy mod yn cael benthyciadau estynedig o'r llyfrgell. Beth sydd angen i mi ei wneud nesaf?

A Dim byd! Dylai'r benthyciad estynedig, ddwywaith y cyfnod benthycy arferol a all amrywio, gael ei roi'n awtomatig bob tro y cymerwch lyfr allan. Os na fydd hyn yn digwydd, rhwch wybod i ni. Dylech wneud yn siŵr o hyd eich bod yn adnewyddu neu'n dychwelyd yr eitem cyn y dyddiad estynedig, neu fe allwch orfod talu dirwy.

C Sut ydw i'n trefnu'r gwasanaeth casglu llyfrau?

A Os ydych yn gymwys am y gwasanaeth hwn (h.y. y caiff ei grybwyll yn eich CCDP, gwnewch restr o'r eitemau sydd eu hangen arnoch a chysylltwch â'r llyfrgell, gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu sydd orau gennych:

Ffôn: 01248 382981

E-bost: library@bangor.ac.uk

Facebook:

Sgwrsio â'r llyfrgell ar-lein: cliciwch 'Gofynnwch i'r Llyfrgell' ar gatalog y llyfrgell

Wyneb yn wyneb: holwch staff y llyfrgell

Cyhyd â'u bod ar gael, bydd y llyfrau yn barod i'w casglu o'r safle llyfrgell sydd orau gennych erbyn 4pm drannoeth.

Caniatáu recordio darlithoedd/ tiwtorialau at ddefnydd personol



C Mae rhai darlithwyr fel pe baent yn amharod i ganiatáu recordio. A gaf i recordio pob darlith?

A Os yw hyn yn eich CCDP, yna cewch. Bernir y byddai, yn ôl pob tebyg, yn addasiad rhesymol yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb. . Fodd bynnag, cofiwch eich bod wedi dod i gytundeb â'r Brifysgol mai at eich defnydd personol chi yn unig y mae recordiadau. Mae hyn yn golygu na chewch, ar unrhyw gyfrif, eu cyhoeddi ar y we, nac ar unrhyw wefan gyhoeddus.

C Yn un o'm modiwlau, mae fy narlithydd yn dweud wrthyf am ddiffodd fy recordydd yn ystod trafodaethau grŵp. A ganiateir hyn?

A Ni ddylid defnyddio recordio ond fel strategaeth amgen, yn hytrach na chymryd nodiadau. Pan fo angen cymryd rhan mewn darlithoedd, a bod cyfraniadau'n cyffwrdd â materion neu farn personol, mae'n briodol i chi roi'r gorau i recordio.

- **Darparu taflenni/ copïau o gyflwyniadau Uwchdaflunydd neu sleidiau, lle bo modd, cyn darlithoedd, tiwtorialau, etc.**

C Mae'r rhan fwyaf o'm darlithwyr yn cyhoeddi eu sleidiau ar Blackboard cyn darlithoedd, sy'n wych – oni ddylai'r holl ddarlithwyr wneud hyn?

A Yn ddelfrydol, dylent, ond nid yw bob amser yn mynd i ddigwydd. I lawer o fyfyrwyr, ni fydd peidio â chael sleidiau ymlaen llaw ar gyfer ambell ddarlith yn broblem. Fodd bynnag, os oes angen i chi gael sleidiau ymlaen llaw BOB tro, rhoch wybod i'ch Cynghorwr, a byddwn yn trefnu i'ch CCDP gael ei ddiwygio.

- **Cyngor ar flaenoriaethau ar gyfer darllen i ymchwilio, os oes angen**



C Rwyf wedi cael rhestrau darllen, ond maent yn argymhell llyfrau cyfain – oni ddylwn gael cyfarwyddyd mwy penodol?

A Os ydych, yn syml, yn gofyn am sicrwydd eich bod ar y trywydd iawn, cysylltwch â'r sawl sydd wedi gosod yr aseiniad. Fodd bynnag, os oes angen mwy o gymorth arnoch oherwydd, er enghraifft, ei bod yn cymryd tipyn mwy o amser i chi gael hyd i ffynonellau testunau, dylech ofyn am gyfarwyddyd mwy penodol gan eich darlithydd. Gallwch hefyd gael gair â Thiwtor Anabledd eich Ysgol am gyfarwyddyd cyffredinol.

Cyngor ar derfynau amser gwaith cwrs, ac addasiadau arnynt, os oes angen

C Oni ddylwn gael estyniadau ar fy holl waith cwrs?

A Na, ni fydd myfyrwyr yn derbyn estyniadau awtomatig. Ni fyddai hyn yn debygol o fod yn strategaeth effeithiol, oherwydd gallai'ch holl waith bentyrru. Mae angen i'r holl fyfyrwyr reoli eu hamser yn effeithiol, yn cynnwys y myfyrwyr hynny, sydd yn aml am resymau sy'n ymwneud ag anabledd, yn cymryd mwy o amser i astudio. Os oes angen help arnoch ynglŷn â rheoli amser, cysylltwch naill ai â'ch tiwtor personol neu â'ch Cynghorwr.

Pan fydd eich CCDP yn cynnwys y datganiad uchod, bydd yr Ysgol yn ystyried eich sefyllfa unigol os gofynnwch am estyniad i ddarn o waith cwrs.

C A oes angen i mi ddarparu nodyn gan feddyg ar gyfer pob estyniad?

A Os oes arnoch angen estyniad o ganlyniad i gyflwr iechyd cronig, ni ddylai fod angen am dystiolaeth ychwanegol, gan y bydd gennym nodyn gan y meddyg ar ffeil. Mae estyniad unigryw hefyd yn rhesymol os yw eich gwaith yn hwyr am resymau sy'n gysylltiedig ag anabledd. Bydd angen nodyn meddyg ychwanegol ar gyfer cyflyrau iechyd eraill a all godi, ac ar gyfer amgylchiadau eithriadol yn unol â pholisi eich Ysgol.

C Beth fydd arnaf ei angen os byddaf yn colli darlith / tiwtorial / sesiwn ymarferol?

A Bydd gan bob Ysgol gyfarwyddyd ar absenoldeb y mae angen ei hunan-ardystio, ond efallai y bydd yna adegau pan fydd arnoch angen cyflwyno nodyn meddyg ychwanegol (yn arbennig pan fo'ch cwrs yn gofyn am ganran presenoldeb penodol). Trafodwch hyn gyda'ch Ysgol gan na fydd eich CCDP yn diystyru rheoliadau.



Gellwch drafod unrhyw gwestiynau a fo gennych â'r **Cynghorwr** perthnasol, e-bost:

cynghorwranabledd@bangor.ac.uk neu
cynghorwriechydmeddwl@bangor.ac.uk
cynghorwr dyslecsia@bangor.ac.uk

Os yw eich cwestiwn yn gysylltiedig â'ch Ysgol, gellwch gysylltu'n uniongyrchol â'r **Tiwtor Anabledd** neu siarad â'ch **Tiwtor Personol**.

Am wybodaeth am gyfrifoldebau cyfreithiol y Brifysgol yng nghyswllt addasiadau rhesymol, darllenwch God Ymarfer PB ar Ddarpariaeth ar gyfer Myfyrwyr Anabl.

<https://www.bangor.ac.uk/ar/main/regulations/home.htm#code11>

